

# **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**



## **Cynllun Eryri (Cynllun Rheoli Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri) Dogfen Ymgynghori Gychwynnol**

### **Asesiad Effaith Cydraddoldeb – Sgrinio Tachwedd 2018**

## Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod gael trefniadau yn eu lle er mwyn galluogi ar gyfer asesu effaith debygol unrhyw bolisiâu ac ymarferion arfaethedig ar ein gallu i gydymffurfio gyda'r ddyletswydd gyffredinol, ynghyd ag effaith unrhyw bolisiâu neu ymarferion rydym yn penderfynu eu hadolygu neu eu diwygio.

Ar gyfer bob polisi neu ymarfer newydd (neu adolygiad o bolisi neu ymarfer presennol) bydd yr Awdurdod yn asesu'r effaith debygol ar bobl sydd yn rhannu nodweddion a ddiogelir trwy ymgymryd ag asesiad sgrinio cychwynnol.

Os yw'r polisi neu'r ymarfer yn debygol o gael effaith, fe ymgwymerir ag asesiad o effaith cydraddoldeb llawn a bydd adroddiad o'r asesiad yn cael ei gynhyrchu. Bydd pob adroddiad ar yr asesiad yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

- *pwrpas y polisi neu'r ymarfer sy'n cael ei asesu, os yw'n bolisi newydd neu yn un sy'n bodoli'n barod sy'n cael ei adolygu neu ei ddiwygio;*
- *crynodeb o'r camau a gymerwyd i asesu'r effaith tebygol ar y polisi neu'r ymarfer diwygiedig neu arfaethedig;*
- *crynodeb o'r dystiolaeth a gafodd ei hystyried fel rhan o'r broses asesu;*
- *canlyniadau'r asesiad; ynghyd â*
- *unrhyw benderfyniadau a wnaed yn dilyn yr asesiad.*

### Yr Iaith Gymraeg

Er nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei hystyried fel nodwedd a ddiogelir o dan y ddeddfwriaeth, mae'r Awdurdod yn credu ni ddylid pobl o Gymru dioddef o unrhyw anffafiaeth oherwydd un ai eu defnydd o'r iaith Gymraeg neu trwy eu dymuniad i gyfathrebu trwy'r Gymraeg. Mae hyn yn berthnasol iawn o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri, ble mae 59% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.

Mae Atodiad 1 yn darparu asesiad sgrinio o'r Cynllun Eryri Drafft, a fydd yn mynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus yn gynnar yn 2020.

Mae Atodiad 2 yn rhoi ystyriaeth i'r prif ganlyniadau a'r polisiâu o fewn y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Cynllun terfynol, ac yn rhoi crynodeb i weld a yw'r canlyniad (a'r polisiâu sy'n eistedd oddi tano) yn debygol o gael effaith fawr ar bobl sydd â nodweddion a ddiogelir. Mae angen edrych ar yr asesiad cychwynnol yma ochr yn ochr gyda'r ddogfen Cynllun drafft, gan fod y gweithredoedd penodol o fewn y Cynllun hefyd wedi cael eu hystyried yn y broses sgrinio, er eu bod yn rhy niferus i'w rhestru yn unigol o fewn yr asesiad.

Mae hwn y ddogfen weithredol, a fydd yn cael ei ddiweddarau yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori, er mwyn cymryd i ystyriaeth yr ymatebion a dderbyniwyd.

## Atodiad 1

### Sgrinio Asesu Effaith Cydraddoldeb:

#### Cwestiynau Allweddol

1. Beth sy'n cael ei asesu a beth yw ei brif bwrpas?

Nodwch enw'r strategaeth, polisi, cynllun, canllaw neu'r ymarfer sydd yn cael ei asesu ynghyd â naratif byr o'i brif bwrpas neu ei nod os gwelwch yn dda.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Awdurdod y Parc Cenedlaethol i baratoi Cynllun i reoli Eryri yn effeithiol ar gyfer y dyfodol.

Mi fydd y Cynllun terfynol yn gosod allan sut fydd yr holl bartïon yn gweithio gyda'i gilydd i edrych ar ôl Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mi fydd yn galluogi'r Awdurdod, mewn cydweithrediad gyda'u partneriaid, i osod cyfeiriad clir a rhoi cynlluniau yn eu lle ar gyfer dyfodol yr ardal. Pan fydd yn weithredol, bydd Cynllun Eryri yn cyflawni pwrpasau'r parc cenedlaethol, ynghyd a chyflawni nifer o nodau ac amcanion polisi a blaenoriaethau arwyddocaol Llywodraeth Cymru; y rhai mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r Cynllun drafft (mae'r asesiad yma wedi'i selio arno) yn dod ynghyd â'r canlyniadau o'r ymgynghoriad cychwynnol a'r gwaith dadansoddi data, a hefyd canlyniadau yn deillio o'r ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr a gymerodd lle dros 12 wythnos yn yr haf 2018, a'r canlyniadau o'r digwyddiadau panel arbenigwyr a chynhaliwyd ar ôl yr ymgynghoriad. Ers y cyfnod yma, mae'r wybodaeth wedi cael ei hel, cyfuno a'i mireinio yn y gweithdai cynllunio gweithredoedd.

Mae'r sgrinio wedi cael ei wneud ar y prif Ganlyniadau a Pholisïau ar gyfer y Cynllun terfynol. Mae'r rhain wedi cael eu strwythuro i mewn i 3 rhan:

1. Pwrpas Statudol 1 y Parc Cenedlaethol: Gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, y bywyd gwyllt a'r dreftadaeth ddiwylliannol.  
Amgylchedd Eryri: Gofalu am ein hamgylchedd trawiadol a'n hasedau naturiol a hanesyddol.
2. Pwrpas Statudol 2 y Parc Cenedlaethol: Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.  
Iechyd a Llesiant Eryri: Cyfleoedd i ddysgu drwy ein treftadaeth, a gwella llesiant corfforol a meddyliol a diwylliant bywiog.
3. Dyletswydd y Parc Cenedlaethol trwy gyflawni'r dibenion uchod: ceisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol y Parc Cenedlaethol.  
Cymunedau ac Economi Eryri: Lle gwych i ddatblygu, byw a gweithio.

2. Pwy sy'n cael eu heffeithio gan y strategaeth, polisi, cynllun, canllaw neu'r ymarfer hwn? Pwy fydd yn cael budd ohono ac ym mha ffordd?

Bydd y Cynllun terfynol yn cael effaith ar bawb sy'n byw, gweithio, ac yn defnyddio'r Parc Cenedlaethol i hamddena. Mae hyn yn cynnwys (nid yw'r rhain mewn unrhyw drefn blaenoriaeth):

1. Trigolion - pobl sy'n byw ac yn gweithio yn lleol yn enwedig tîrfeddianwyr, rheolwyr tir, perchnogion a gweithwyr o bob math o fusnesau lleol, perchnogion a gweithwyr yn y diwydiant lletygarwch a pherchnogion a gweithwyr yn y sector hamddena awyr agored.
2. Ymwelwyr - pobl sy'n ymweld ag Eryri, un ai fel ymwelwyr dydd, gwyliau byr neu fel rhan o wyliau hirach. Mae'r bobl hyn yn dod o bob rhan o'r DU ac o bob rhan o'r byd hefyd.
3. Rhanddeiliaid - awdurdodau cyhoeddus, cwmnïau preifat a mudiadau trydydd sector sy'n gyfrifol am ddyfodol tymor hir Parc Cenedlaethol Eryri a'i drigolion.

Bydd y Cynllun terfynol yn cael effaith ar yr holl bobl hyn, oherwydd fe fydd yn gosod fframwaith polisi strategol ar gyfer rheoli'r Parc Cenedlaethol yn y dyfodol. Felly mae'n bwysig fod pawb yn cael y cyfle i roi mewnbwn tuag at ffurfio'r Cynllun terfynol trwy gyfrwng y broses o gynhyrchu'r Cynllun.

3. A oes ymgynghoriad wedi cael ei gynnal gyda'r bobl hynny a fydd yn cael eu heffeithio gan y strategaeth, polisi, cynllun, canllaw neu'r ymarfer hwn, ac a ydynt wedi cael cyfle i ymateb? Os na, a yw wedi cael ei hyrwyddo a'i esbonio i'r bobl hynny a fydd yn cael eu heffeithio?

Yn 2018, cynhaliwyd gwaith ymgynghori cychwynnol i gael teimlad o'r materion allweddol a'r cyfleoedd sy'n effeithio ar Barc Cenedlaethol Eryri. Ymgwymerwyd â'r broses casglu barn yma trwy gynnal sioeau a digwyddiadau, siarad â chynghorau cymuned, cynnal arolwg ar-lein a chynnal trafodaethau manwl a gweithdai gyda phartneriaid a gydag is-grŵp Fforwm Eryri. Yn ychwanegol, cynhaliwyd dadansoddiad manwl o'r data cyfredol.

Yn dilyn hyn, ymgwymerwyd â'r ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf, a galluogodd cynulleidfa fwy eang cael mewnbwn i beth ddylai'r Cynllun terfynol edrych fel. Yn ystod y cyfnod ymgynghori 12 wythnos dros fisoedd yr haf yn 2018:

- Derbyniwyd 644 o ymatebion ysgrifenedig;
- Roedd 64% o ymatebion gan bobl oedd yn byw a / neu'n gweithio yn y Parc Cenedlaethol;
- Ymwelodd y sioe deithiol a 6 gwahanol leoliad o fewn y Parc Cenedlaethol;
- Mynychodd 115 o bobl y digwyddiadau Panel Arbenigwyr;
- Gwelwyd y fideo ymgynghori 44,362 o weithiau;
- Cyrhaeddodd Cyfryngau Cymdeithasol 131,597 o unigolion;
- Cyhoeddwyd 6 erthygl newyddion lleol a chenedlaethol.

Mae'r ymatebion a dderbyniwyd i'r uchod wedi cael eu cyfuno a'i mireinio yn y gweithdai cynllunio gweithredoedd, sydd wedi creu'r Cynllun drafft a fydd yn mynd allan i ymgynghoriad yn y misoedd cyntaf yn 2020.

4. A oes yna gyfleoedd o fewn y strategaeth, polisi, cynllun, canllaw neu'r ymarfer i hyrwyddo cydraddoldeb ac a oes cyfle i hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl sy'n rhannu nodweddion a warchodir ac i hyrwyddo cysylltiadau da rhwng grwpiau a chymunedau gwahanol?

Oes, mae yna nifer o gyfleoedd o fewn y Cynllun terfynol ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd ac ar gyfer cynyddu dealltwriaeth rhwng gwahanol grwpiau o bobl.

5. A oes posib i'r strategaeth, polisi, cynllun, canllaw neu'r ymarfer hwn effeithio yn anghyfartal ac / neu yn negyddol ar unrhyw rhai o'r grwpiau isod?

### **Gwahanol Grwpiau Oedran**

Mae'r ddogfen ymgynghori yn anwahaniaethol yng nghyd-destun oed. Mae'r cynigion ar y canlyniadau, polisiâu a'r gweithredoedd cysylltiol gyda'r potensial i gael effaith positif ar wahanol grwpiau oedran.

Bydd pobl o oedran gweithio a phobl ifanc yn benodol yn cael budd positif o'r cynigion ar y ffordd ymlaen o dan C2. Bydd cynigion i gefnogi'r economi lleol, a fydd yn eu twrn o gymorth i ddatblygu swyddi o ansawdd, yn helpu pobl ifanc i aros yn yr ardal. Bydd cefnogi busnesau sy'n dechrau, cael yr isadeiledd cywir yn ei le, datblygu twristiaeth gynaliadwy drwy gydol y flwyddyn a chynigion twristiaeth o ansawdd uchel a.y.b., i gyd o gymorth i ddatblygu'r economi yn lleol.

Mae data yn 2014 yn dangos fod 4.1% o Wynedd a 5.6% o Gonwy o fewn y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, felly bydd unrhyw welliannau i'r economi lleol ynghyd ag ansawdd swyddi yn cael effaith gadarnhaol.

Yn ychwanegol, mae'r gwaith a gynigir o dan y pennawd yr amgylchedd i ddiogelu a gwarchod yr amgylchedd a chynefinoedd, gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, gwrthweithio effeithiau hinsawdd, gwella storio carbon a.y.b., â'r potensial i ddatblygu'r economi lleol trwy greu cyfleoedd swyddi newydd. Ar hyn o bryd, mae 38% o swyddi yn Eryri ynghlwm i'r amgylchedd. Mae yna gyfleoedd yma i ddatblygu sgiliau arbenigol lleol pellach ar gyfer y sector, a fydd eto o fudd i bobl ifanc.

Bydd gwella argaeledd tai fforddiadwy o fewn y Parc Cenedlaethol o fudd i drigolion lleol, ond yn benodol o help i bobl ifanc i aros yn yr ardal, yn hytrach na symud i ffwrdd.

Yn ychwanegol, gyda phoblogaeth sy'n mynd yn hŷn (mae 25.2% o boblogaeth Eryri dros 65 mlwydd oed), mae'r cynnig ar y ffordd ymlaen o ran gwella iechyd trwy annog defnyddio'r Parc Cenedlaethol i hamddena trwy ragnodi cymdeithasol a.y.b., yn mynd i fod o fudd i'r grŵp hwn yn

benodol. Mae pobl hŷn yn tueddu i gael mwy / graddfa uwch o gyflyrau iechyd sydd ynghlwm i ffordd o fyw fel pwysedd gwaed uchel, clefyd y galon a chlefyd siwgr.

Ni adnabuwyd unrhyw effeithiau negyddol perthnasol i unrhyw grŵp oedran penodol o fewn y ddogfen.

### **Rhyw**

Mae'r ddogfen ymgynghori yn anwahaniaethol yng nghyd-destun rhyw.

Mae'r disgwyliad oed rhwng dynion a merched wedi culhau, gyda'r bwlch oed yng Ngwynedd ar hyn o bryd yn dair blynedd (80 dynion / 83.5 merched). Mae poblogaeth Eryri yn eithaf cytbwys (49.8% dynion / 50.2% merched), felly nid yw'r cynigion o fewn y ddogfen yma yn debygol o gael effaith andwyol ar un rhyw dros y llall.

Yn hanesyddol, mae yna duedd i fenywod fod mewn mwy o swyddi rhan-amser na gwrywod, ac mae yna fwlch tâl dangosadwy yn y swyddogaethau hyn. Mae'r cynigion ar y ffordd ymlaen yn y ddogfen o ran datblygiad economaidd trwy greu mwy o swyddi o ansawdd uchel ac ati, gyda'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar gyflogaeth benywod.

Yn gyffredinol, nid yw unrhyw gynigion ar y ffordd ymlaen wedi cael eu hanelu at ryw benodol ac felly bydd yr effaith yn un niwtral.

### **Anabledd**

Nid oes dim byd o fewn y ddogfen ymgynghori gyda'r potensial i wahaniaethu, i fod yn anfanteisiol nac effeithio yn annheg ar bobl anabl. Mae gan rhai o'r cynigion y potensial i gael effaith gadarnhaol tu hwnt ar bobl sy'n anabl.

Mae data yng Ngwynedd a Conwy yn dangos fod 8.9% o oedolion yn adrodd eu bod yn cael triniaeth ar gyfer materion iechyd meddwl. Yn y DU bob blwyddyn, amcangyfrifir fod 25% o bobl gydag anghenion iechyd meddwl, gyda'r materion mwyaf cyffredin yn orbryder ac iselder. Mae hyn yn adlewyrchu'r darlun ar draws Cymru, gyda 20% o gyllideb y GIC yn cael ei wario ar wasanaethau iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae'r amseroedd aros hir iawn ar gyfer mynediad i'r gwasanaethau hyn yn awgrymu bod y gwir nifer o bobl â phroblemau iechyd meddwl mewn gwirionedd yn llawer uwch na mae'r data swyddogol yn ei ddangos.

Mae ymchwil yn dangos bod ymgymryd â gweithgareddau corfforol yn rheolaidd yn dda i iechyd corfforol mewn perthynas ag ystod eang o ffactorau, a phrofwyd hefyd ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl rhai pobl sydd gyda gorbryder a / neu iselder. Mae rhai pobl gyda chyflyrau iechyd sydd ynghlwm i ffordd o fyw fel pwysedd gwaed uchel, clefyd y galon a chlefyd siwgr, hefyd yn cael budd o weithgaredd corfforol yn yr awyr agored, a ellir dros yr hir dymor weld gwellhad yn eu hiechyd a lles. Mae gweithgarwch corfforol hefyd yn ffordd dda i bobl gysylltu ag eraill. Drwy gynyddu hygyrchedd y Parc Cenedlaethol, a manteisio ar yr hyn sydd ganddo i'w gynnig, bydd pobl yn gallu gwella eu hiechyd a lles cyffredinol.

Mae'r cynigion i wella hygyrchedd llwybrau a gwella isadeiledd yn mynd i fod o fudd i bobl anabl yn benodol, oherwydd bydd yn arwain at agor mwy o gyfleoedd i bobl mwynhau'r Parc Cenedlaethol.

Yn ychwanegol, mae dysgu gydol oes yn gwella hunan-barch ac yn annog rhyngweithio cymdeithasol a bywyd mwy egnïol. Mae tystiolaeth yn dangos bod y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith neu addysg yn anad dim yn helpu i dynnu pobl allan o iselder. Mae'r arfer o osod amcanion, sy'n gysylltiedig â dysgu i oedolion yn benodol, yn cael ei gysylltu'n gryf â lefelau lles gwell o lawer. Yn ychwanegol at hynny, mae cymryd rhan mewn bywyd cymdeithasol a chymunedol wedi denu llawer o sylw ym maes ymchwil lles. Mae unigolion sy'n dweud bod ganddynt fwy o ddi-ddordeb mewn helpu eraill yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn hapus. Mae'r cynigion i gynyddu ymglymiad cymunedau a gwirfoddolwyr mewn prosiectau amgylcheddol felly, gyda'r potensial i ddatblygu hyder pobl trwy gyswllt a phobl newydd a thrwy ddatblygu sgiliau a chael profiad.

Mae'r cynigion eraill fel gwella cysyllted band-eang ac adolygu systemau trafnidiaeth gyhoeddus, gyda'r potensial i gael dylanwad positif ar bobl anabl. Yn ystadegol, mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod mewn sefyllfa lle nad oes ganddynt drafnidiaeth eu hunain, maent yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith ac yn byw mewn tloidi ac yn fwy tebygol o fod yn ynysig yn gymdeithasol. Mae'r holl gynigion hyn â'r potensial i gael gwared â rhwystrau i bobl anabl.

### **Hil**

Nid yw'r cynigion o fewn y ddogfen ymgynghori yn debygol o gael effaith andwyol ar unrhyw grŵp lleiafrifol ethnig penodol, gan gynnwys pobl Ddu ac Asiaidd.

Mae mwyafrif y boblogaeth leol yn wyn, gyda dim ond 2.4% o drigolion Wynedd a 1.7% o Gonwy gyda chefnidir sydd ddim yn wyn, sydd yn sylweddol is na'r canran cyffredinol o 14% o grwpiau lleiafrifol ethnig (gan gynnwys pobl Ddu ac Asiaidd) yn weddill y DU.

Er bod gennym ddigon o ddata ynghylch nifer yr ymwelwyr, nid oes gennym ddadansoddiad o'r ymwelwyr yn ôl ethnigrwydd, felly nid oes ffigyrau cywir yn bodoli. Fodd bynnag, gyda 3.89 miliwn o bobl wedi ymweld â Pharc Cenedlaethol Eryri yn 2015, mae'r ardal yn debygol o gael nifer sylweddol uwch o ymwelwyr o grwpiau lleiafrifol ethnig (gan gynnwys pobl Ddu ac Asiaidd) na'r boblogaeth leol.

Mae'r cynigion ar gyfer datblygiad cynaliadwy o'r sector dwristiaeth o fewn y Parc Cenedlaethol felly, yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn yn gyffredinol.

### **Crefydd**

Nid yw'r cynigion yn debygol o gael effaith andwyol ar unrhyw grwpiau crefyddol penodol neu ar bobl sydd heb unrhyw grefydd.

**Tueddiad Rhywiol**

Ni ragwelir y bydd y cynigion yn debygol o gael effaith andwyol ar y grŵp hwn.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Ni ragwelir y bydd y cynigion yn debygol o gael effaith andwyol ar y grŵp hwn.

**Pobl Briod a Phartneriaethau Sifil**

Nid oes effeithiau andwyol posibl wedi cael eu nodi o fewn y cynigion ar gyfer y grŵp hwn.

**Yr Iaith Gymraeg**

Mae'r cynigion o fewn y ddogfen yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg, oherwydd fe nodwyd bod yr iaith yn rhan bwysig o dreftadaeth ddiwylliannol yr ardal sydd angen cael ei gwarchod. Ar hyn o bryd, mae 58.6% o'r boblogaeth leol yn siaradwyr Cymraeg, sy'n gwneud Eryri yn gadarnle i'r iaith. Fodd bynnag, mae'r ffigwr hwn yn dirywio ac wedi gostwng 3.5% ers 2001.

Bydd hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn rhan o'r gwaith hwn fel elfen bwysig o'r hyn sy'n gwneud Eryri yn arbennig. Trwy ddathlu'r iaith Gymraeg ac annog ymwelwyr i'w gwerthfawrogi a'i chofleidio, y gobaith yw y bydd hyn yn datblygu eu dealltwriaeth a'u parch tuag ato.

Yn ychwanegol, mae gwaith sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy o'r economi yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr iaith, trwy gynnig gwell cyfleoedd i bobl ifanc gael gwaith / cyflogaeth gynaliadwy yn lleol. Bydd pobl ifanc a fagwyd gydag addysg cyfrwng Cymraeg yn aros yn eu cymunedau lleol ac yn gallu magu eu plant eu hunain gyda Chymraeg yn famiaith iddynt, os oes cyflogaeth o ansawdd da a thai fforddiadwy ar gael yn lleol.

6. Sut fydd y strategaeth, polisi, cynllun, canllaw neu ymarfer yn cael eu monitro?

Yn dilyn yr ymgynghoriad cynhwysfawr ar ddechrau 2020, bydd yr wybodaeth a'r adborth a gasglwyd o'r ymatebion yn penderfynu os oes angen unrhyw newidiadau i'r Cynllun drafft. Yn unol â hynny, bydd y Sgriniad Asesu Effaith Cydraddoldeb yma yn cael ei ddiweddarau i gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau. Yn ychwanegol, bydd unrhyw dystiolaeth newydd yn codi o'r ymatebion ymgynghori sy'n adnabod potensial am effaith negyddol yn cael ei gymryd i ystyriaeth hefyd wrth adolygu'r Sgriniad Asesu Effaith Cydraddoldeb.



**Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen asesiad llawn.

Nid oes unrhyw arwydd bod y cynigion ar y ffordd ymlaen o dan y dair canlyniad allweddol yn debygol o wahaniaethu neu gael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau o bobl sydd â nodweddion a ddiogelir.

**Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Adroddiad Ymgynghoriad Cychwynnol Cynllun Eryri

Ffynhonnell Data a rhestrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori Gychwynnol

Data ONS

Asesiad Llesiant Gwynedd a Môn

Asesiad Llesiant Conwy a Dinbych

Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2015 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

**Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim angen unrhyw newidiadau ar yr adeg hon.

## ATODIAD 2

### ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISIÂU AR GYFER Y CYNLLUN

#### Canlyniad A1:

Mae unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ar y Parc Cenedlaethol yn cael eu lleihau.

#### Polisiâu:

A1.1: Datblygu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd. Bydd yr egwyddorion yn diffinio pan fydd angen gweithredu ymhellach ar ffurf cynllun rheoli yn seiliedig ar feysydd.

A1.2: Sicrhau bod llwybrau'r ucheldir a hyrwyddir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed.

A1.3: Cymryd camau pragmatig i leihau sbwriel yn Eryri.

A1.4: Lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd

A1.5: Lleihau unrhyw effeithiau negyddol hamdden ar y Parc Cenedlaethol

#### Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

#### Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod

Nod y canlyniad yma a'r polisiâu cysylltiol yw gweithredu mesuriadau a gweithredoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol sydd yn cael eu hachosi gan ddefnydd hamdden o'r Parc Cenedlaethol, oherwydd yn bennaf niferoedd uchel o ymwelwyr.

#### A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)

Ni adnabuwyd unrhyw effaith mawr (cadarnhaol neu negyddol).

Mae yna botensial i gael effaith positif ar rhai pobl sydd gyda nodweddion a ddiogelir.

Wrth ystyried opsiynau dichonadwy i ail ddosbarthu ymwelwyr i ardaloedd distawach, mae'n rhaid gweithio mewn partneriaeth agos gyda'r cymunedau lleol hynny a fuasai'n croesawu cynnydd yn y nifer o ymwelwyr. Mae'n bwysig bod ymdrech yn cael ei wneud i ymofyn barn y

gymuned gyfan, gan gynnwys pobl sydd yn anodd eu cyrraedd; fel bod yr effeithiau (cadarnhaol a negyddol) sy'n deillio o gynnydd mewn ymwelwyr yn cael ystyriaeth lawn cyn symud ymlaen ac unrhyw gynlluniau cadarn.

Mi fuasai ail ddosbarthu ymwelwyr i ardaloedd distawach yn hwb i'r economi lleol, yn enwedig os gellir ymestyn hyn tu allan i'r prif dymor. Mi fuasai creu swyddi cynaliadwy parhaol yn lle'r swyddi tymhorol presennol o fudd i bobl ifanc yn enwedig, ac o gymorth iddynt fedru aros yn y gymuned leol.

Mi fydd unrhyw awydd i gynyddu nifer o ymwelwr i gymuned leol angen asesiad priodol o'r cyfleusterau presennol mewn lle ar gyfer yr ymwelwyr hyn, yn enwedig yn nhermau parcio a thrafnidiaeth. Fel y gwelir mewn manau eraill o'r Parc Cenedlaethol, mae diffyg llefydd parcio swyddogol digonol yn arwain at ymwelwyr yn parcio yn anaddas ar ffyrdd a phalmentydd. Ar wahân i'r problemau diogelwch amlwg mae hyn yn ei greu, mae pobl anabl yn enwedig yn agored i'r effeithiau hyn, gan fod mynediad i mewn ac o gwmpas y gymuned leol yn gallu cael ei rhwystro.

Un o'r sialensiau mwyaf o gael nifer uchel o ymwelwyr yw'r cynnal a chadw sydd ei angen i lwybrau oherwydd erydiad troed ynghyd â chynnal a chadw cyfleusterau yn y manau hyn. Un o'r gweithredoedd yw paratoi hyfforddiant i greu sylfaen o gontractwyr lleol medrus. Eto, mae hyn gyda'r potensial i helpu cynnal swyddi lleol o ansawdd uchel, a fuasai o fudd i bobl ifanc lleol yn enwedig sydd eisiau aros yn eu cymuned leol.

Yn ei gyfanrwydd, mae polisïau a'r gweithrediadau cysylltiol o dan A1 gyda'r potensial i fod o fudd i drigolion lleol.

### **Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

### **Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol

Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori

Data ONS

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

**Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim newidiadau i'r Cynllun, pryn bynnag mae angen ystyried materion posibl a nodwyd uchod yn llawn wrth weithredu'r camau o fewn y Cynllun.

## ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISIÂU AR GYFER Y CYNLLUN

### Canlyniad A2:

Mae'r dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth yn cael sylw trwy gynnal, adfer, ehangu a chysylltedd cynefinoedd a rhywogaethau Adran 7.

### Polisiau:

A2.1: Cydlynu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd a rhywogaethau 7, rhywogaethau, nodweddion amgylchedd hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach.

A2.2: Mae gwaith cynnal a chadw, adfer, ehangu a gweithgareddau i wella cysylltedd yn mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth.

A2.3: Sicrhau bod ansawdd dŵr a'r amgylchedd morol yn cael ei gynnal a'i wella.

A2.4: Adfer, ehangu a gwella cydnerthedd a chymysgedd rhywogaethau o rywogaethau coed brodorol a choetiroedd.

### Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

### Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod

Nod y canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol yw diogelu a gwarchod yr amgylchedd naturiol ac i liniaru yn erbyn colli bioamrywiaeth.

### A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)

Ni adnabuwyd unrhyw effaith mawr (cadarnhaol neu negyddol).

Gan fod y polisiau a'r gweithredoedd cysylltiol hyn wedi cael eu hanelu tuag at gymryd gweithred uniongyrchol i ddiogelu'r amgylchedd naturiol ac i warchod cynefinoedd brodorol a bioamrywiaeth, ni adnabuwyd unrhyw effaith uniongyrchol ar unrhyw grwpiau a ddiogelir.

Ond un weithred sydd hefo effaith uniongyrchol ar unigolion, a hwnnw yw 'i uwch-sgilio y gweithlu lleol er mwyn cyflwyno'r cynllun yn llwyddiannus'. Bydd unrhyw hyfforddiant uniongyrchol sy'n cymryd lle sy'n arwain at bobl yn gwella neu'n cael sgiliau newydd o fudd i'r economi leol ac yn galluogi pobl ifanc yn enwedig i gael swyddi cynaliadwy i'w galluogi i aros yn eu cymunedau lleol.

Mi fydd diogelu a gwarchod yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth hefyd angen arbenigwyr i greu cynlluniau a'u rhoi ar waith. Ar hyn o bryd, mae'n anodd recriwtio ar gyfer rolau arbenigol o fewn y Parc Cenedlaethol.

Mae ystadegau yn dangos bod 26.4% o drigolion Gwynedd gyda chymwysterau Lefel 4 neu'n uwch, tra bod trigolion Conwy yn 38%. Bydd rhaid i'r gwaith barhau i annog pobl ifanc i astudio'n bellach gyda phynciau STEM ac i ystyried gyrfaoedd yn y meysydd hyn; gan fydd eu hangen i sicrhau canlyniadau tymor hir y gwaith yma. Mi fydd llwyddiant yn golygu mwy o swyddi sgiliau uchel proffesiynol hir dymor yn lleol, i helpu pobl ifanc yn enwedig i aros neu ddychwelyd i'w cymunedau lleol.

### **Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

### **Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol

Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori

Data ONS

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

**Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim angen newidiadau.

## **ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISI'AU AR GYFER Y CYNLLUN**

### **Canlyniad A3:**

Mae Eryri yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd trwy gynlluniau lleihau carbon, lliniaru a storio a dal a storio / atafaelu carbon.

### **Polisiau:**

A3.1: Lleihau allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri.

A3.2: Diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri.

A3.3: Gweithredu mesurau lliniaru newid yn yr hinsawdd.

### **Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad**

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

### **Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod**

Nod y canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol yw rhoi ar waith gweithrediadau sy'n lleihau allyriad carbon ac sy'n lliniaru yn erbyn newid i'r hinsawdd.

### **A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)**

Ni adnabuwyd unrhyw effaith mawr (cadarnhaol neu negyddol).

Gan fod y polisiau a gweithredoedd cysylltiol yma wedi eu hanelu at gymryd gweithred uniongyrchol i leihau allyriadau carbon, ni adnabuwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol ar unrhyw grwpiau a ddiogelir.

Mae'r weithred i 'weithredu mesuriadau teithio a thrafnidiaeth wyrdd' wedi'i osod allan ym mholisi B4.1, a fydd yn cael ei ystyried yn bellach ymlaen yn y ddogfen yma.

### **Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

## **Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol

Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori

Data ONS

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

**Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim angen newidiadau.



## ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISIÂU AR GYFER Y CYNLLUN

### Canlyniad A4:

Mae Eryri ar y blaen yn rhyngwladol wrth fynd i'r afael â lledaeniad rhywogaethau goresgynnol a phlâu a chlefydau sy'n effeithio ar rywogaethau brodorol.

### Polisiau:

A4.1: Codi ymwybyddiaeth gyda'r cyhoedd ar sut y gallant weithredu i atal sefydlu a lledaenu rhywogaethau goresgynnol.

A4.2: Gweithio i sicrhau bod rheolaeth rhywogaethau ymledol yn cael ei chynnwys mewn unrhyw gynlluniau nwyddau cyhoeddus / amaeth-amgylchedd newydd.

A4.3: Parhau i ehangu Camau Gweithredu i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol.

A4.5: Ehangu ar Gamau Gweithredu ychwanegol i fynd i'r afael â phlâu a chlefydau sy'n effeithio ar rywogaethau brodorol.

### Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

### Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod

Nod y canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol yw rhoi ar waith gweithredoedd i warchod harddwch naturiol y tirlun, yn benodol trwy reoli a gwaredu rhywogaethau ymledol.

### A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)

Ni adnabuwyd unrhyw effaith mawr (cadarnhaol neu negyddol).

Gan fod y polisiau a gweithredoedd cysylltiol yma wedi cael eu hanelu yn benodol tuag at weithredu uniongyrchol i reoli a dileu rhywogaethau ymledol, ni adnabuwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol ar unrhyw grwpiau a ddiogelir.

Os gellir sicrhau'r arian, mi fydd budd i'r economi lleol trwy gyfleoedd busnes i gontractwyr lleol. Mae'r amcangyfrif o'r gost i reoli rhododendron o fewn y Parc Cenedlaethol yn unig, yn £10 miliwn.

### **Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

### **Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol

Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori

Data ONS

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

**Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim angen newidiadau.

## **ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISIÂU AR GYFER Y CYNLLUN**

### **Canlyniad A5:**

Mae cymunedau, busnesau ac ymwelwyr yn cymryd rhan ac yn chwarae rhan weithredol wrth ofalu am dirweddau, cynefinoedd, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

### **Polisiau:**

A5.1: Chwilio am gyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a dan anfantais i ymgysylltu gyda, a dysgu am yr amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri a sut y gallant helpu i ofalu amdano.

A5.2: Cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol.

A5.3: Cyflawni mesurau o dan Ganlyniad B3 sydd - trwy wybodaeth, marchnata a brandio - yn ennyn diddordeb rhanddeiliaid ymhellach wrth ofalu am amgylchedd y Parciau Cenedlaethol.

### **Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad**

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

### **Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod**

Nod y canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol yw ennyn diddordeb pobl gyda'r gwaith o warchod rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

### **A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)**

Mae yna botensial ar gyfer effaith cadarnhaol sylweddol ar grwpiau a ddiogelir, trwy weithredu'r polisiau a gweithredoedd cysylltiol yma.

Trwy sicrhau ymgysylltiad uniongyrchol gyda phob rhan o'r gymuned, bydd hyn yn sicrhau fod pawb yn cael cyfle teg i ddysgu am dan, gwerthfawrogi, a helpu i ofalu am yr amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri. Mae hyn yn bwysig iawn ar gyfer grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd, sydd yn fwy tebygol o fod mewn tloedi ac yn dioddef o allgau cymdeithasol. Mae parhau i ddysgu trwy gydol oes yn gwella hunan-barch ac yn annog rhyngweithiad cymdeithasol a bywyd mwy actif. Mae tystiolaeth yn dangos bod y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysgiadol yn gallu helpu pobl gydag iselder. Mae'r ymarfer o osod nodau, sy'n ymwneud ag addysg i oedolion yn enwedig, wedi cael ei gysylltu gyda lefelau uwch o les.

Yn yr un modd, mae gwella'r cynnig cyfredol a datblygu ymhellach y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael, gyda'r potensial i gael effaith cadarnhaol ar bobl ddifreintiedig a phobl sydd gyda nodweddion a ddiogelir.

Trwy weithredu'r polisi yma, mae yna angen i sefydliadau partner gael ystod eang o gyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer bob lefel o allu ac i gyrraedd disgwyliadau a chymhelliad y cyfranogwyr. Er enghraifft, mae rhai yn gwirfoddoli er mwyn mwynhau cael rhyngweithio cymdeithasol, a gyda llai o ddiddordeb mewn datblygu sgiliau. Mae rhai eraill yn gwirfoddoli er mwyn gwneud gwahaniaeth, ac i'r bobl yma mae'n bwysig iddynt gael gweld ar ddiwedd y diwrnod ffrwyth ei gwaith a beth gafodd ei gyflawni. Mae rhai eraill yn gwirfoddoli er mwyn datblygu sgiliau a phrofiad gwerthfawr sydd trwy obaith yn mynd i arwain at gael eu derbyn ar gwrs addysgiadol neu i sicrhau cyflogaeth. Mae angen felly cynnig amryw o gyfleoedd i ateb gofynion pawb. Mae gwirfoddoli yn broses ddwyffordd, ac os yw'r polisi yma am gael effaith cadarnhaol, mae'n rhaid i sefydliadau partner sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael ei gwerthfawrogi a'u bod yn cael rhywbeth gwerthfawr allan o'r gwaith.

Yn ychwanegol, mae datblygu cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith i blant ysgol a phobl ifanc, yn mynd i fod o fudd i'w hannog i feddwl am y sgiliau a gwybodaeth sydd ei angen ar gyfer gweithio yn y maes amgylcheddol, ac yr ystod eang o yrfaedd ar gael yn y sector yma.

Mae yna dystiolaeth helaeth o'r maes ymchwilio llesiant sy'n dangos fod pobl sy'n cymryd rhan mewn bywyd cymdeithasol a chymunedol yn adrodd bod ganddynt fwy o ddiddordeb mewn rhoi help llaw i eraill, ac yn fwy tebygol o adnabod ei hunain fel hapus.

Pryn bynnag, i alluogi hyn uwchlaw, mi fydd unrhyw waith ymgysylltu gyda'r gymuned leol yn gorfod cynnwys gweithredoedd blaenweithgar gan sefydliadau partner i sicrhau fod pobl sy'n anodd eu cyrraedd, difreintiedig a / neu grwpiau a ddiogelir yn cael eu cyrraedd, ac yn cael cyfle teg i gymryd rhan. Y rhain yw'r bobl sy'n mynd i elwa mwyaf o gymryd rhan. Dylai hyn gynnwys (ymysg pethau eraill) defnyddio nifer o sianeli ar gyfer cyfathrebu a rhyngweithio, trwy ddefnyddio canllawiau Plain English a Chymraeg Clir mewn unrhyw wybodaeth ysgrifenedig ac ystyried fersiynau hawdd i'w ddarllen o'r dogfennau.

### **Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

## **Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol

Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori

Data ONS

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

**Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim newidiadau i'r Cynllun, pryn bynnag mae angen ystyried materion posibl ar gynhwysedd a nodwyd uchod yn llawn wrth weithredu'r gweithrediadau o fewn y Cynllun.

## ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISIÂU AR GYFER Y CYNLLUN

### Canlyniad A6:

Mae Eryri yn enghraifft flaenllaw yng Nghymru o sut i ofalu am a hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol. Mae nodweddion yn cael eu deall, eu gwarchod a'u gwella.

### Polisiau:

A6.1: Cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig a'u dwyn yn ôl i ddefnydd trwy ddatblygiad cydymdeimladol.

A6.2: Cefnogi perchnogion henebion rhestredig i'w diogelu'n well.

A6.3: Datblygu a gweithredu prosiectau graddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol.

A6.4: Cyflawni mesurau yn A5.1 i ymgysylltu â rhanddeiliaid â'r amgylchedd hanesyddol.

### Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

### Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod

Nod y canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol yw cymryd camau a gweithredoedd i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol, trwy ganolbwyntio ar adeiladau traddodiadol a rhestredig a henebion. Wedi ei gynnwys hefyd, yw gwaith i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl ar hyn.

### A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)

Wrth weithredu rhai o'r gweithredoedd o dan y polisiau yma, mae yna botensial am effeithiau cadarnhaol i rai pobl gyda nodweddion a ddiogelir.

Un o'r gweithredoedd yw 'datblygu sgiliau traddodiadol' sydd eu hangen ar gyfer atgyweirio adeiladau traddodiadol a rhestredig. Ar hyn o bryd mae yna 377 o henebion a 1,916 o adeiladau rhestredig o fewn y Parc Cenedlaethol.

Trwy fwyhau a gwella sgiliau gwahanol grefftwy'r yn y diwydiant adeiladu i gynnwys dulliau adeiladau traddodiadol, mae'n ychwanegu gwerth gan fod hyn yn cael ei gyfrif fel sgiliau arbenigol. Mae gan hyn y potensial i helpu pobl ifanc yn enwedig, i alluogi cael swyddi o

ansawdd uchel yn lleol, a hefyd i godi lefelau cyflogau. Yn 2015, roedd y cyflog gross (canolrif) cyfartalog yng Ngwynedd yn £415 a £474 yng Nghonwy, sydd yn is na'r cyfartaledd Cymru sydd yn £479.

Mae yna weithred arall, sef 'Datblygu prosiectau sy'n gwella mynediad i'r amgylchedd hanesyddol' sydd gyda'r potensial i gael budd i bobl anabl a'r rhai sydd angen mynediad gwastad fel rhieni hefo pram. Profwyd lawer gwaith y gellir rhoi atebion arloesol ar waith mewn adeiladau hanesyddol i wella mynediad i'r adeilad ac oddi mewn iddo heb effeithio ar y nodweddion traddodiadol. Pryn bynnag, i hyn fod yn llwyddiant bydd rhaid ymgynghori o'r cychwyn cyntaf yn y cam dylunio, i sicrhau bod y cynigion arfaethedig yn addas.

### **Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

### **Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol

Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori

Data ONS

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

**Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim angen newidiadau.

## **ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISIÄU AR GYFER Y CYNLLUN**

### **Canlyniad A7:**

Mae tirweddau nodedig a mathau o gymeriadau a'r Rhinweddau Arbennig, gan gynnwys ardaloedd o dawelwch, yn cael eu gwarchod a'u gwella.

### **Polisiau:**

A7.1: Trwy'r Cynllun Datblygu Lleol, sicrhau bod gosodiad a lleoliad y datblygiad yn y dirwedd yn briodol.

A7.2: Trwy'r Cynllun Datblygu Lleol, sicrhau bod datblygiadau newydd mawr yn diogelu golygfeydd i mewn ac allan o'r Parc Cenedlaethol.

A7.3: Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys canllawiau clir ar gyfer datblygu seilwaith mawr amhriodol fel ceblau pŵer daear o fewn y ffin a lle bo hynny'n bosibl mae'n annog tanddaearu llinellau presennol sydd wedi'u lleoli'n amhriodol.

A7.4: Trwy'r Cynllun Datblygu Lleol, sicrhau bod goleuadau mewn datblygiadau newydd yn ystyried statws y Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol.

A7.5: Sicrhau bod cynlluniau, prosiectau a rhaglenni strategol a gofodol rhanbarthol yn cyfeirio at, ac yn cydnabod pwysigrwydd Parc Cenedlaethol Eryri.

A7.6: Lleihau effeithiau negyddol hamdden ar y dirwedd trwy weithredu Canlyniad A1.

A7.7: Amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol trwy weithredu Polisi A2.1.

A7.8: Amddiffyn a gwella Safleoedd Daearegol a Geomorffig sy'n Bwysig yn Rhanbarthol (RIGS) a geoamrywiaeth gyffredinol.

A7.9: Annog gostyngiadau yn nifer y gweithgareddau hedfan isel sy'n digwydd dros Eryri.

### **Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad**

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

### **Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod**

Nod y canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol yw sicrhau fod tirlun unigryw'r Parc Cenedlaethol yn cael ei ddiogelu, trwy sicrhau datblygiadau sensitif ac addas yn y llefydd iawn.



**A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)**

Ni adnabuwyd unrhyw effaith mawr (cadarnhaol neu negyddol).

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Eryri diwygiedig wedi cael ei fabwysiadu ym mis Chwefror 2019, ar ôl mynd trwy broses Archwilio trylwyr. Roedd y Cynllun hefyd wedi bod yn destun sgriniad Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar nifer o'r pwyntiau allweddol yn y broses.

**Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

**Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol

Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori

Data ONS

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

**Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim angen newidiadau.

# ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISIÂU AR GYFER Y CYNLLUN

## Canlyniad B1:

Mae partneriaid, gwasanaethau iechyd a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithredu ac yn hyrwyddo buddion cynlluniau llesiant yn yr amgylchedd. O ganlyniad mae iechyd poblogaeth Gogledd Cymru yn gwella ac mae'r Parc Cenedlaethol yn cael ei gydnabod fwyfwy fel lle ar gyfer gwella llesiant pobl leol, poblogaeth Cymru a phawb sy'n ymweld ag Eryri.

## Polisiau:

B1.1: Ehangu gwaith gyda phartneriaid, gwasanaethau iechyd a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus trwy gynlluniau rhagnodi cymdeithasol.

B1.2: Hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella llesiant pobl.

## Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

## Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod

Nod y canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol yw sicrhau bod y Parc Cenedlaethol yn cael ei ystyried yn, ac yn cael ei ddefnyddio fel lle sy'n gallu gwella iechyd a lles pobl.

## A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)

Mae yna botensial ar gyfer effaith cadarnhaol sylweddol ar grwpiau a ddiogelir, trwy weithredu'r polisiau a gweithredoedd cysylltiol yma.

Tra bod cynlluniau rhagnodi cymdeithasol yn cynyddu mewn poblogrwydd ar draws y DU, mae Conffederasiwn GIC Cymru yn nodi bod yna fwch sylweddol yn y llenyddiaeth sy'n canolbwyntio ar yr effaith mae'r cynlluniau yma yn eu cael, ac mae yna dystiolaeth gymysg ar ba mor effeithiol ydynt.

Un enghraifft lle mae dadansoddiad o'r fath wedi cymryd lle oedd yn Rotherham, sy'n adrodd bod 20% o ostyngiad yn y nifer o fynychwyr i'r unedau Damwain ac Argyfwng, a 21% o ostyngiad yn y nifer o gleifion preswyl, pan fu cyfarfodydd dilyniant yn cymryd lle gyda'r cyfranogwyr 3 i 4 mis wedyn.

Mae dirywiad iechyd y genedl wedi bod o gonsyrn ers nifer o flynyddoedd, ac mae'r darlun o fewn y Parc Cenedlaethol yn adlewyrchu hyn. Mae 53% o drigolion Gwynedd a Conwy yn ordew. Mae gordewdra yn cynyddu'r risg o bwysau gwaed uchel, trawiad i'r galon, strôc a Math 2

o glefyd siwgr ynghyd â rhai math o gancr. Mae 8.9% o oedolion yng Ngwynedd a Conwy yn adrodd eu bod yn cael triniaeth ar gyfer problemau iechyd meddwl. Pryn bynnag, mae'r gwir ffigur ar gyfer faint o bobl sy'n profi materion iechyd meddwl yn debygol o fod yn llawer iawn fwy. Yn 2018/19, ond 78% o drigolion Gwynedd a 77% o Gonwy oedd yn graddio eu hiechyd fel da neu dda iawn.

Un o'r gweithredoedd yw i 'Hel data ar y rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu i gymryd rhan', a fydd yn gam gyntaf hanfodol. Mae llwyddiant y cynlluniau yma yn mynd i ddiybnu ar ddeall y rhwystrau a thaclo nhw, a trwy roi cefnogaeth ddigonol dros yr hirdymor i alluogi pobl i gymryd rhan. Mae hyn yn fwy tebygol o gael effaith cadarnhaol ar y cyfranogwyr, gan fod un mesur pwysig o lwyddiant yw cyfradd glynu.

Mae'r gwaith yma yn debygol o gael effaith positif ar grwpiau a ddiogelir. Mae ymchwil yn awgrymu bod pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o ymgymryd â'r maint o ymarfer corff a gymeradwywyd yn wythnosol. Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu fod pobl sy'n adnabod ei hunain fel LGBT yn fwy tebygol o brofi materion iechyd meddwl. Mae yna grwpiau a ddiogelir eraill hefyd sy'n fwy tueddol o brofi materion iechyd meddwl oherwydd nifer o ffactorau gwahanol fel gwahaniaethu, unigedd a thlodi. Mae'r polisïau sy'n cael eu cynnwys yma yn targedu yn uniongyrchol yr ystadegau pwysig yma, fel "Annog cyfleoedd i gymdeithasu yn yr amgylchedd naturiol i helpu lleihau unigedd cymdeithasol" a "Hwyluso gweithgareddau ar gyfer grwpiau difreintiedig o fewn y Parc Cenedlaethol i feithrin dealltwriaeth o'r Rhinweddau Arbennig".

Un o'r gweithredoedd eraill yw 'Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer pobl anabl - lle'n bosib'. Mae gan hwn y potensial i gael effaith cadarnhaol ar grwpiau a ddiogelir.

Fel nodwyd yn flaenorol o dan ganlyniad A5, mae angen ystod eang o gyfleoedd gwirfoddoli i fod ar gael i siwtio gwahanol alluoedd ac i fodloni'r gwahanol resymau dros wirfoddoli. Er enghraifft, cymhelliad rhai cyfranogwyr yw cael hyd i gyflogaeth, gan fod cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl anabl yng Nghymru yn llai na hanner yr hyn i bobl sydd ddim yn anabl; felly mae datblygu sgiliau cyfredol a dysgu sgiliau newydd, cael profiad a.y.b., yn bwysig iawn. Ar gyfer eraill, mae'r ochr gymdeithasol o wirfoddoli yn mynd i fod yn bwysig, ac yn y blaen.

I alluogi'r weithred yma i gael ei weithredu yn llwyddiannus, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth gofalus i'r rhwystrau mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth geisio cymryd rhan fel trafndiaeth. Bydd rhaid rhoi ystyriaeth i'r rhain a chael atebion i'w goresgyn.

### **Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

## **Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol

Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori

Data ONS

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

**Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim angen newidiadau. Pryn bynnag bydd rhaid gwneud gwaith i adnabod a goresgyn rhwystrau i bobl cymryd rhan i alluogi'r polisi yma i fod yn llwyddiannus.

## ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISIÄU AR GYFER Y CYNLLUN

### Canlyniad B2:

Ehangiad yn nifer y llwybrau hyrwyddedig hygyrch o ansawdd uchel, dolenni a chysylltiadau cymunedol, llwybrau treftadaeth a llwybrau aml-ddefnyddiwr, sy'n darparu cyfleoedd dyddiol i'r boblogaeth leol ac ymwelwyr i gadw'n iach yn gorfforol ac yn feddyliol, a gwerthfawrogi'r hyn sy'n gwneud y Parc Cenedlaethol yn arbennig.

### Polisiau:

B2.1: Creu cynllun a chanolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), llwybrau a chysylltiadau a dolenni wedi'u hyrwyddo rhwng trefi a phentrefi.

B2.2: Sicrhau bod gwaith Hawl Tramwy yn cael ei flaenoriaethu'n effeithiol a bod cyfrifoldebau a safonau'n glir, gyda'r APCE yn canolbwyntio ei adnoddau a'i gyllid ar lwybrau aml-ddefnyddiwr a llwybrau'r ucheldir.

B2.3: Gwella cyfleoedd mynediad i bobl anabl a grwpiau sydd wedi'u hallgáu / wedi cael eu heithrio yn gymdeithasol.

### Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

### Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod

Nod y canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol yw sicrhau bod mesurau a gweithredoedd ar waith i gynnal, gwella ac ehangu ar y nifer o lwybrau a theithiau sydd ar gael yn y Parc Cenedlaethol.

### A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)

Dylai'r polisiau hyn cael effaith cadarnhaol sylweddol ar grwpiau a ddiogelir ynghyd â'r boblogaeth gyffredinol.

Mae ymchwil yn dangos bod gweithgareddau corfforol rheolaidd yn dda i iechyd corfforol ar ystod o ffactorau ac mae wedi'i brofi i gael effaith positif ar iechyd meddwl. Mae gweithgareddau corfforol hefyd yn ffordd dda i bobl cysylltu gyda'i gilydd. Ond 53% o bobl yng Nghymru sy'n ymgymryd ag o leiaf 150 o funudau o ymarfer corff pob wythnos yn 2018/19. Trwy gynyddu

hygyrchedd y rhwydwaith o lwybrau yn y Parc Cenedlaethol, a trwy annog pobl i gymryd mantais ohonynt, mi fydd pobl yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol tuag at wella eu hiechyd a lles.

Un o'r gweithredoedd pwysig o dan y canlyniad hwn, yw'r gwaith i dargedu grwpiau o'r cychwyn cyntaf, i sicrhau fod bod ystyriaeth berthnasol ar gyfer y defnyddwyr wedi cael eu hymgorffori yn y wedd dylunio. Mi fydd hyn yn sicrhau fod y broses yn fwy effeithlon, gan fydd yr anghenion yn glir o'r cychwyn a byddant yn gallu cael eu hystyried yn llawn i sicrhau fod atebion ymarferol sy'n gweithio yn cael eu hadeiladu i mewn i'r cynllun y llwybr, i oresgyn lle'n bosib unrhyw faterion tirwedd. Dylai hyn olygu bod y dyluniadau yn addas i'r pwrpas.

Gweithred bwysig arall yw cynnal ymchwil i mewn i'r rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl a grwpiau sydd wedi'u gwahardd i ddefnyddio'r Parc Cenedlaethol. Bydd rhan o'r gwaith yma yn gorfod cymryd i ystyriaeth y cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd o gwmpas y llwybrau (parcio a thoiledau hygyrch) ynghyd ag argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus; gan fod y rhain yn agweddau pwysig iawn sydd yn gwahardd pobl yn bresennol i ddefnyddio'r Parc.

### **Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

### **Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol  
Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori  
Data ONS

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

**Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim angen newidiadau.

## ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISIÂU AR GYFER Y CYNLLUN

### Canlyniad B3:

Er mwyn gwella cysondeb marchnata a brandio ar draws y sector, mae Eryri yn cael ei chydabod yn rhyngwladol am ei Rhinweddau Arbennig, gan gynnwys ei diwylliant, ei threftadaeth a'i hiaith; tirweddau trawiadol; ystod eang o weithgareddau awyr agored; croeso cynnes ac eco-dwristiaeth.

### Polisiau:

B3.1: Datblygu strategaeth farchnata brand ar gyfer Eryri yn seiliedig ar y Rhinweddau Arbennig a weithredir yn gyson ar draws y sector cyhoeddus a phreifat.

B3.2: Annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol.

B3.3: Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, datblygwch gynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad.

### Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

### Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod

Nod y canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol yw sicrhau bod dull cynaliadwy cydlynol yn cael ei fabwysiadu gan yr holl rhanddeiliaid ar draws y Parc Cenedlaethol tuag at reoli twristiaeth a'i effeithiau.

### A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)

Ni adnabuwyd unrhyw effaith mawr (cadarnhaol neu negyddol).

Bydd mabwysiadu strategaeth brandio ynghyd â chynllun dehongli yn sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu rhoi allan gan y sefydliadau partner. Bydd hyn yn gallu cael ei ymestyn i fusnesau lleol a fydd yn gallu bod yn llysgenhadon brand.

Elfen bwysig o'r gwaith yma yw pwysleisio hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol Eryri, i annog ymwelwyr i ymestyn eu gorwelion yn bellach na gweithgareddau awyr agored pan maen nhw'n

dod yma. Mae'r gwaith yma yn gallu ehangu'r tymor ymweld, trwy hyrwyddo Eryri fel cyrchfan aeaf gydag atyniadau gydol flwyddyn ychwanegol i'w mwynhau. Mi fydd hyn yn cael effaith cadarnhaol ar yr economi lleol, gyda'r potensial i greu swyddi mwy parhaol yn hytrach na'r swyddi tymhorol traddodiadol sy'n gyffredin yn y sector twristiaeth. Mi fydd hyn o fudd i bobl ifanc yn enwedig, trwy sicrhau bod nhw'n gallu aros yn lleol yn hytrach na symud i ffwrdd i chwilio am waith.

Mi fydd cyfathrebu yn elfen allweddol i sicrhau bod y strategaeth brandio yn gweithio. Mi fydd y gweithredoedd i archwilio pa fath o wybodaeth ac ym mha ffurf ar gyfer y gynulleidfa targed yn bwysig iawn. Mae'n hanfodol cael y gymysgfa gywir o ffurfiau modern a thraddodiadol, i sicrhau ymysg pethau eraill, bod pobl ddim yn cael eu gwahardd rhag cael y wybodaeth gywir. Elfen bwysig arall yw sicrhau mynediad cynhwysol i unrhyw ddeunydd gwybodaeth a gynhyrchir, er enghraifft, y dewis o raffeg, arddull ffont a maint ac ati.

Tra bod nifer sylweddol o bobl yn defnyddio'r we fel ffynhonnell o wybodaeth ac fel ffordd o wneud ymchwil cyn ymweld, yn anecdotiaidd rydym yn gwybod bod yn well gan bobl yn aml i gael cyswllt dynol i dderbyn cyngor un ai wyneb-i-wyneb neu dros y ffôn. Mae staff y ganolfan wybodaeth yn adrodd bod pobl yn cysylltu hefo nhw i wirio os yw'r wybodaeth ar-lein yn gywir a chyfoes cyn ymweld. Yn ychwanegol, mae'n bwysig cofio nad yw pawb yn gallu cael mynediad i'r we yn hawdd neu heb fod hefo'r sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio adnoddau ar-lein yn effeithiol. Yn aml iawn, y bobl hyn yw'r rhai sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol fwyaf yn ein cymdeithas.

Elfen bwysig iawn arall o'r gwaith yma, yw rhoi allan gwybodaeth addysgiadol i ymwelwyr. Trwy roi allan negeseuon cyson am gadwraeth ynghyd â defnydd cyfrifol o Eryri, mae yna botensial i gael effaith gadarnhaol ar wahanol grwpiau o bobl.

Mae nifer o bobl o ardaloedd trefol yn enwedig, yn aml hefo ychydig iawn o ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o faterion cadwraethol a phroblemau ag achoswyd trwy niferoedd o ymwelwyr - mae hyn yn enwedig yn gallu bod yn wir i bobl ifanc. Bydd unrhyw waith i wella eu dealltwriaeth, yn enwedig am effaith ymwelwyr a defnydd cyfrifol o'r Parc Cenedlaethol, ond yn gallu bod yn beth da.

### **Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

### **Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol  
Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori  
Data ONS  
Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd  
Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych



A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)  
Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

**Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim newidiadau wedi'u hadnabod.

## ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISIÂU AR GYFER Y CYNLLUN

### Canlyniad B4:

Mae sefydliadau a chymunedau yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a gweithredu opsiynau arloesol ac integredig ar gyfer parcio a chludiant / trafndiaeth gynaliadwy.

### Polisiau:

B4.1: Gwella cynaliadwyedd ac argaeledd cludiant / trafndiaeth i ymwelwyr a thrigolion a mynd i'r afael â phroblemau parcio ar draws y Parc Cenedlaethol.

B4.3: Archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafndiaeth wyrddach.

### Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

### Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod

Nod y canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol yw galluogi'r holl rhanddeiliaid i weithio gyda'i gilydd i ddod i'r afael â un o'r materion mwyaf sy'n cael effaith ar y Parc Cenedlaethol - parcio a thrafnidiaeth.

### A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)

Ni adnabuwyd unrhyw effaith mawr (cadarnhaol neu negyddol).

Mae'r canlyniad yma yn anelu dod i'r afael a'r un o'r materion mwyaf sy'n wynebu'r Parc Cenedlaethol, sef parcio a thrafnidiaeth. Mae capasiti parcio yn broblem enfawr, yn enwedig o gwmpas y safleoedd pot mêl yng ngogledd y parc. Mae'r egwyddor bwysicaf o gadwraeth a gwarchod y Parc Cenedlaethol yn golygu bod ehangu cyfleusterau presennol fel meysydd parcio mewn ardaloedd sensitif ddim yn opsiwn bob tro. Pan mae meysydd parcio dros dro yn cael eu defnyddio mewn caeau a'r blaen, mae'n bwysig ystyried y cyfyngiadau mae hyn yn eu hachosi i bobl gyda bathodynau glas a ellir cael eu heffeithio gan arwyneb anwastad a garw mewn cae, yn enwedig os yw'r maes parcio wrth ymyl llwybr hygyrch. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n rhaid sicrhau fod llefydd parcio digonol i bobl gyda bathodynau glas yn y prif feysydd parcio.

Mae'n hanfodol dod a phobl at ei gilydd i ddatblygu datrysiadau cynaliadwy ac arloesol. Effen allweddol o hyn bydd sicrhau trafndiaeth gyhoeddus ddigonol a gwasanaethau parcio a theithio, gan gynnwys atebion ar sut gellir cynnal y rhain trwy sicrhau referniw digonol.

Gyda chyfeiriad at ganlyniadau eraill o fewn Cynllun Eryri sy'n edrych ar wella mynediad a gwella iechyd a lles, factor bwysig i'w ystyried yw sicrhau bod bysys yn rhai hygyrch ar gyfer pobl anabl, pobl hefo plant a phobl hŷn, i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'r Parc Cenedlaethol a chael i gychwyn eu taith hygyrch. Mae'n rhaid i'r bysys fod yn ddibynadwy a chyson yn ogystal â fforddiadwy, i sicrhau eu bod yn opsiwn dichonadwy i ran fwyaf o bobl. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yng nghanol y broses o adolygu tocynnau bysus am ddim i bobl dros 60 oed, gydag un opsiwn i newid yr oed cymwys i oed pensiwn, a fydd yn cael effaith ar y bobl hynny sy'n defnyddio'r gwasanaeth yma.

Bydd rhaid rhoi'r un ystyriaethau i unrhyw gynlluniau parcio a theithio, yn nhermau parcio ar gyfer bathodynau glas digonol a bysys hygyrch.

### **Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

### **Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol  
Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori  
Data ONS

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

### **Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim angen newid y polisïau, ond mae angen rhoi ystyriaeth ddigonol o'r mater amlinellwyd uwchlaw mewn prosiectau unigol o'r math yma.

## ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISIÂU AR GYFER Y CYNLLUN

### Canlyniad B5:

Mae cyfleusterau ymwelwyr, llety a gweithgareddau o ansawdd cynyddol uchel. Maent yn cwrdd â disgwiliadau ein cwsmeriaid ac yn rhagori arnynt, maent yn sensitif i'r dirwedd, ac yn adlewyrchu cymeriad arbennig yr ardal.

### Polisiau:

B5.1: Mae gan gyfleusterau ymwelwyr ddigon o gyllid a buddsoddiad, i gyflawni a rhagori ar ddisgwiliadau ymwelwyr.

B5.2: Cefnogi gweithgareddau sy'n ategu Rhinweddau Arbennig Eryri - yn enwedig llonyddwch - ac sy'n annog ymwelwyr i newid i ymweld yn ystod yr hydref a'r gaeaf er mwyn mynd i'r afael â natur dymhorol a phwysau yn y tymor uchel.

B5.3: Mae lletai sy'n addas ar gyfer tirwedd o ansawdd uchel yn cwrdd â disgwiliadau a galw ymwelwyr ac mae'n helpu i gynyddu gwariant y pen.

### Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

### Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod

Nod y canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol yw sicrhau twristiaeth gynaliadwy ar gyfer yr hir dymor, sy'n darparu buddion positif i'r economi leol wrth gynnig ansawdd uchel i'r ymwelwyr.

### A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)

Mae'r canlyniad a'r polisiau cysylltiol yma gyda'r potensial i gael effaith positif ar gyflogaeth leol trwy welliant yn yr economi lleol. Mae datblygu twristiaeth gaeaf trwy wella gwasanaethau a chyfleusterau fel llety o ansawdd uchel, bwytai, cyfleusterau hamdden tu fewn a.y.b., gyda'r potensial i nid yn unig uchafu ar dwristiaeth trwy gydol y flwyddyn, ond hefyd i gyfalafu ar brisio premiwm ac i gynyddu gwariant y pen. Fel nodwyd yn gynharach, gellir hyn fod o gymorth i bobl ifanc yn enwedig, i gael cyflogaeth gynaliadwy sydd ddim yn dymhorol, a fydd o gymorth i gadw nhw yn yr ardal leol.

Un o'r camau gweithredu yw asesu cynaliadwyedd a hyfywedd ehangu'r Canolfannau Gwybodaeth yn ganolfannau cymunedol / lles. Er mae'r nifer yn fechan, meant wedi'u lleoli mewn ardaloedd poblog sydd gyda mynediad gwell at drafnidiaeth gyhoeddus. I rai pobl sydd

wedi'u heithrio yn gymdeithasol a / neu sydd gyda nodweddion a ddiogelir, gall y datblygiad hwn hwyluso mynediad haws, oherwydd gallai gael gwared ar rai o'r rhwystrau rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau sy'n hybu iechyd da a gwell lles.

Fel y nodi'r yn rhai o'r asesiadau sgrinio eraill, mae angen mewnbwn gan ddefnyddiwr gwasanaethau o'r cychwyn cyntaf mewn unrhyw broses o ddatblygu gwelliannau i wasanaethau a chyfleusterau yn y dyfodol, i sicrhau fod gwelliannau addas ar gyfer mynediad yn cael eu cynnwys yn y dylunio cychwynnol. Gellir hyn fod yn sialens ar gyfer partneriaethau'r Cynllun i sicrhau bod busnesau lleol yn deall pa mor bwysig yw hyn wrth ystyried datblygu a neu ehangu eu busnesau. Dylai'r broses rheoli datblygu cael dylanwad yn hyn o beth, pan fydd busnesau yn ceisio am ganiatâd cynllunio.

### **Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

### **Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol

Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori

Data ONS

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Gymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

**Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim angen newidiadau.

# ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISIÂU AR GYFER Y CYNLLUN

## Canlyniad C1:

Mae iaith, diwylliant a threftadaeth Eryri yn cael ei dathlu, ei gefnogi a'i gryfhau.

## Polisiau:

C1.1: Hyrwyddo dealltwriaeth, mwynhad ac amddiffyn yr iaith a'r diwylliant Cymraeg trwy strategaethau arloesol.

C1.2: Darparu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal.

C1.3: Amddiffyn enwau lleoedd Cymreig.

## Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

## Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod

Nod y canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol yw mabwysiadu mesurau a gweithrediadau sy'n hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg - un o'r rhinweddau unigryw arbennig y Parc Cenedlaethol.

## A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)

Dylai'r canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol cael effaith cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg a siaradwyr Cymraeg.

Er nad yw wedi cael ei rhestru fel nodwedd a ddiogelir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn ogystal, mae wedi bod yn rhan ddiffiniol o ddiwylliant sefydliadol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ers amser maith, gan sicrhau ar bob achlysur bod pobl yn cael y gwasanaeth yn eu dewis iaith.

Er ei fod yn un o'r ardaloedd cadarnle i'r iaith, mae'r iaith Gymraeg serch hynny, dan fygythiad yn Eryri. Mae allfudo pobl ifanc ynghyd â mewnfudo pobl hŷn yn bennaf sy'n dod yma i ymddeol, yn effeithio ar niferoedd a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. Yn ogystal, mae yna nifer o ffactorau cymhleth ychwanegol pam mae pobl yn dewis dysgu neu beidio â dysgu a siarad Cymraeg.

Mae unrhyw bolisiâu a gweithredoedd cysylltiol sy'n cefnogi a hyrwyddo digwyddiadau cymunedol, creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon i'r iaith ac yn creu cyfleoedd i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg i gymdeithasu, ond yn gallu bod yn beth cadarnhaol.

Mae'r weithred i hyrwyddo mentrau i annog pobl sy'n symud i'r ardal i ddysgu Cymraeg i'w ganmol. Pryn bynnag, fel man cychwyn, mae angen rhoi mewn lle gweithredoedd i bwysleisio a chodi ymwybyddiaeth o'r pwysigrwydd diwylliannol o'r iaith Gymraeg i'r bobl yma, fel eu bod yn datblygu lefel sylfaenol o barch tuag at yr iaith a'i siaradwyr, sydd yn anffodus ddim mewn lle yn aml iawn. Rhaid bod yn realistig a derbyn nad fydd y nifer sylweddol o bobl sy'n symud i mewn i'r ardal am ddysgu'r iaith; ond os maen nhw o leiaf yn dysgu pwysigrwydd yr iaith a'r rôl mae'n chwarae yn hunaniaeth ddiwylliannol y trigolion lleol, mi fydd o gymorth i wella cydlyniant cymunedol.

### **Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

### **Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol  
Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori  
Data ONS

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

**Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim angen newidiadau.

## **ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISI'AU AR GYFER Y CYNLLUN**

### **Canlyniad C2:**

Mae pobl yn cael cyfle i ymgartrefu yn yr ardal o ganlyniad i gyfleoedd gwaith a busnes o ansawdd uchel sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol.

### **Polisiau:**

C2.1: Mae seilwaith cyfathrebu yn yr ardal yn cael ei wella ar gyfer busnesau a chymunedau mewn ffordd nad yw'n peryglu'r dirwedd.

C2.2: Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi, cyflogaeth a busnes sy'n gysylltiedig â neu'n ategu pwrpas 1af y Parc Cenedlaethol a Rhinweddau Arbennig gan gynnwys sectorau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd.

C2.3: Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi, cyflogaeth a busnes sy'n ymwneud ag neu'n ategu ail bwrpas y Parc Cenedlaethol, Rhinweddau Arbennig a'r thema iechyd a lles.

### **Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad**

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

### **Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod**

Nod y canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol yw datblygu mesurau a gweithredoedd sy'n cryfhau'r economi leol mewn ffordd gynaliadwy.

### **A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)**

Mae yna botensial i gael effaith positif sylweddol ar grwpiau a ddiogelir trwy weithredu'r polisiau a gweithredoedd cysylltiol yma.

Mae cyfleoedd cyflogaeth gyfyngedig yn factor mawr sy'n effeithio pobl ifanc yn enwedig yn Eryri. Yn aml iawn, mae eu penderfyniad i aros neu symud i ffwrdd o'u cymuned yn ddibynnol ar os maen nhw'n gallu cael cyflogaeth leol.

Wrth ddatblygu polisiau economaidd a gweithredoedd cysylltiol sydd am fod o gymorth i ddatblygu amrediad o gyflogaeth ar bob lefel mewn sectorau gwahanol; ond gyda'r pwyslais ar gyflogaeth tymor hir sefydlog yn hytrach na swyddi tymhorol a chytundebau oriau sero, yn mynd i fod o fudd i'r boblogaeth i gyd. Mae data o 2014 yn dangos bod 4.1% o Wynedd a 5.6% o Gonwy o fewn y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.



Mae cymunedau lleol ffyniannus angen cymysgfa dda o bobl o bob oedran, ac yn anuniongyrchol dylai'r prosiectau a gweithredoedd yma gyfrannu tuag at hyn. Mae ystadegau yn dangos bod cymunedau lleol yn colli canran sylweddol o'u bobl ifanc, tra bod y genhedlaeth hŷn yn cynyddu fel canran, yn rhannol oherwydd bod Eryri yn lle atyniadol i symud i ymddeol.

Mi fydd unioni'r cydbwysedd o fudd i'r economi lleol, gan fydd yna fwy o bobl yn gweithio yn defnyddio gwasanaethau a busnesau lleol. Mae'n bwysig peidio tanamcangyfrif yr effaith economaidd ehangach gellir ei greu trwy hyn.

Yn ychwanegol, mae unrhyw fentrau i wella cysylltedd digidol yn mynd i fod o fudd i bobl sy'n ynysig yn gymdeithasol. Mae rhai pobl sydd gyda nodweddion a ddiogelir fel pobl anabl neu bobl hŷn yn benodol, gyda mwy o duedd i fod yn ynysig. Mae ffactorau megis dim mynediad i gerbyd, trafnidiaeth gyhoeddus wael, bwy mewn ardal wledig a'r blaen, yn gallu golygu bod y cyfleoedd i adael y cartref yn gyfyngedig iawn.

Yn 2018/19 adroddwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru ac ond 63% o drigolion Gwynedd a'i gymharu â 81% o drigolion Conwy oedd yn fodlon gyda'u gallu i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau meant eu hangen. Mae'n debygol fod y pocedi mawr gwledig yng Ngwynedd (sydd tu fewn i'r Parc Cenedlaethol) yn mynd i fod yn ffactor yn y canlyniad yma.

Yn 2018/19, roedd 87% o gartrefi ar draws Cymru gyda mynediad i'r we, gyda 89% o oedolion yn gallu defnyddio'r we. Pryn bynnag, mae hyn dal yn gadael nifer sylweddol a fuasai'n hoffi mynediad i'r we ond os sydd ar hyn o bryd hebdo. Er nad yw gwella cysylltedd band eang / 4G yn Eryri yn ateb llawn, mi fuasai o help mewn rhai amgylchiadau trwy alluogi pobl i gael cysylltiad i'r byd tu allan, cadw mewn cysylltiad gyda theulu a ffrindiau ac yn y blaen.

### **Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

## **Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol

Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori

Data ONS

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

**Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim angen newidiadau.

## ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISI'AU AR GYFER Y CYNLLUN

### Canlyniad C3:

Mae atebion sy'n ymwneud â thair fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu i alluogi pobl i ymgartrefu yn yr ardal, yn cael eu gweithredu.

### Polisiau:

C3.1: Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol.

C3.2: Trwy'r CDLI, creu polisiau sy'n annog tai fforddiadwy.

C3.3: Trwy'r CDLI, creu polisiau sy'n annog cartrefi cynaliadwy.

### Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

### Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod

Nod y canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol yw cymryd mesurau a gweithredoedd sy'n sicrhau fod pobl yn gallu aros o fewn eu cymunedau lleol trwy allu fforddio cartrefi.

### A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)

Mae yna botensial i gael effaith positif ar grwpiau a ddiogelir trwy weithredu'r polisiau a gweithredoedd cysylltiol yma.

Mae'r angen am dai fforddiadwy yn bwysig iawn yn Eryri, gan fod canran uchel o bobl yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai lleol yn eu cymunedau. Mae data yn dangos fod 60% o deuluoedd Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad dai lleol, gyda 21% o drigolion Gwynedd mewn tldi tanwydd.

Yn 2015, y cyflog gros cyfartalog (canolrif) yng Ngwynedd oedd £415 a £474 yng Nghonwy, sydd yn llai na'r cyfartaledd Cymru o £479. Mae argaeledd tai fforddiadwy newydd felly yn ffactor bwysig iawn i gefnogi'r boblogaeth leol.

Mae data yn dangos bod rhai pobl gyda nodweddion a ddiogelir fel pobl anabl, pobl ifanc a phobl hŷn yn fwy tebygol o ennill llai na'r cyflog cyfartalog, oherwydd ffactorau fel byw mewn ardal wledig yn cyfyngu'r opsiynau trafndiaeth a chyflogaeth. Mae'r polisi yma felly, gyda'r potensial i

nid yn unig fod yn gadarnhaol i'r boblogaeth leol, ond yn benodol i rai pobl gyda nodweddion a ddiogelir.

Yn ychwanegol, gall y polisi yma fod o fudd i'r iaith Gymraeg, gan fydd pobl (enwedig pobl ifanc) gyda chyfleoedd ychwanegol i aros yn eu cymunedau trwy fedru prynu cartref lleol. Un o'r materion sy'n effeithio'r sgiliau iaith Gymraeg yn Eryri yw'r allfudo o siaradwyr Cymraeg ifanc a'r mewnfudo o bobl hŷn i'r Parc Cenedlaethol i ymddeol. Mae'r polisi yma gyda'r potensial i negyddu'r dirywiad y defnydd o'r iaith Gymraeg.

Gan fod llai na 3% o boblogaeth y Parc Cenedlaethol yn adnabod ei hunain fel lleiafrifoedd ethnig, nid yw'r polisi yma yn debygol o wahaniaethu yn erbyn y grŵp yma yn anghymesur. Ni fyddai ffoaduriaid a cheiswyr lloches fel y rhai sydd wedi ymgartrefu'n lleol trwy Raglen Ailsefydlu Ffoaduriaid Syria yn cael eu heffeithio, gan eu bod yn cael llety ar rent ac yn annhebygol o fod yn y farchnad dai.

Mae'n bwysig ystyried hygyrchedd wrth weithredu polisïau a gweithredoedd tai fforddiadwy o'r cychwyn cyntaf, yn enwedig wrth gynllunio tai cymdeithasol a thai fforddiadwy, gan y bydd angen ôl troed mwy fesul cartref ar rai pobl â nam ar eu symudedd; yn enwedig defnyddwyr cadeiriau olwyn; y rhai sydd angen toiled a chawod ar y llawr gwaelod a'r rhai sydd angen staff cymorth parhaol i gael eu cartrefu yn yr eiddo.

### **Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

### **Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol  
Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori  
Data ONS

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydwethredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

### **Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim newidiadau i'r Cynllun, pryn bynnag mae angen ystyried materion posibl a nodwyd uchod yn llawn wrth weithredu'r camau o fewn y Cynllun.

## ASESIAD O'R PRIF GANLYNIADAU A PHOLISIÂU AR GYFER Y CYNLLUN

### Canlyniad C4:

Partneriaid y cynllun a sefydliadau cymunedol sy'n hyrwyddo ac yn eirioli ar ran anghenion a barn mae pobl leol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ymdeimlad cadarn o gydlyniant cymunedol, perthyn a bywiogrwydd y Parc Cenedlaethol yn parhau.

### Polisiau:

C4.1: Cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol.

C4.2: Gweithio gyda chymunedau i wella dealltwriaeth ymhellach o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol.

### Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Rheolwr Partneriaethau & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

### Disgrifiad byr o'r thema a'r amcanion gwaelodol - pwrpas a nod

Nod y canlyniad yma a'r polisiau cysylltiol yw sicrhau gwell ymgysylltiad â chymunedau lleol, gan sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn rheolaeth tymor hir y Parc Cenedlaethol.

### A ydych yn ystyried fod y gweithrediadau yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol)

Rhan bwysig o lesiant yw'r teimlad o fod yn perthyn i'ch cymuned. Mae ffactorau fel teimlo'n rhan o'r gymuned, lefelau bodlonrwydd, a chredu eich bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol a.y.b., i gyd yn chwarae eu rhan ac o gymorth tuag at gynhwysiant cymunedol.

Yn 2018/19, roedd y canran o drigolion Gwynedd a oedd yn cytuno bod yna cynhwysiant cymunedol da yn eu hardal ond yn 53% (lawr o 69% yn 2014/15). Mae'r ffigurau ar gyfer Conwy yn eithaf sefydlog o 2014/15 hyd at 2018/19, sef 61%. Pryn bynnag, roedd y nifer o bobl a oedd yn dweud eu bod yn fodlon gyda'u hardal leol fell le i fyw yn uwch - 89% yng Ngwynedd a 93% yng Nghonwy.

Yn bellach i hyn, ond 23% o drigolion Gwynedd a 19% o drigolion Conwy oedd yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu cymuned leol. Mae'n glir felly bod angen croesawu unrhyw bolisiau a gweithredoedd cysylltiol sydd yn mynd i annog cyfranogiad.

Dylai unrhyw waith ymgysylltu gyda chymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol sicrhau bod pobl sy'n anodd eu cyrraedd ac y rhai sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai sydd wedi'u heithrio yn gymdeithasol, yn cael eu cyrraedd ac yn cael gwahoddiad i gyfrannu.

Tra bod gwell ymgysylltiad gyda chynghorau cymunedol a thref yn gam cadarnhaol, mae'n rhaid cofio er eu bod yn siarad dros eu cymuned, nid yw'r Cynghorwyr bob tro'n gynrychioliadol o'u cymuned. Mae'r gweithredoedd eraill sydd wedi cael eu hamlinellu yn rhai cadarnhaol, ac nid yn debygol o gael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau penodol hefo nodweddion a ddiogelir; pryn bynnag nid yw'r rhain ar ben eu hunain yn debygol o gyflawni'r canlyniad cyffredinol.

Ni adnabuwyd unrhyw effaith mawr (cadarnhaol neu negyddol).

### **Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau**

Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

### **Ffynhonnell Data a Thystiolaeth**

Cynllun Eryri: Ymatebion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol  
Ffynonellau data a restrwyd yn y Ddogfen Ymgynghori  
Data ONS

Asesiad Llesiant Ynys Môn a Gwynedd

Asesiad Llesiant Conwy a Sir Ddinbych

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yn 2018 (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017 (Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru)

Arolwg Cenedlaethol Cymru

**Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Cynllun fel canlyniad i'r broses sgrinio.**

Dim angen newidiadau i'r polisiau. Pryn bynnag, wrth weithredu'r polisiau yma rhoi ystyriaeth i ychwanegu gweithredoedd pellach i sicrhau cyfranogiad ehangach gyda grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd.